Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Blant Osborne
# Quantock Drive
# Casnewydd
# NP19 9DF

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol, sef:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2016**

## Ynglŷn â’r lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Meithrinfa Blant Osborne |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Unigolyn Cofrestredig/Unigolion Cofrestredig | Caroline Lawrence/Jane Welsher |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn sydd â gofal | Karen Smith |
| Nifer y lleoedd | 31 |
| Ystod oedran y plant | 0 i 4 oed |
| Nifer y plant y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am tan 6.00pm (7.30am trwy apwyntiad) |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Rhagfyr 2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2012 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 10 a 11 Tachwedd 2015 |

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae’r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ychydig iawn o blant sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw blant yn dod o gartrefi lle mae’r naill riant neu’r llall yn siarad Cymraeg. Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad. Mae’r adeilad yn cynnwys ystafell i fabanod, ystafell dawel, ardal chwarae anniben a dwy ystafell chwarae, un ar gyfer plant iau a’r llall ar gyfer plant hŷn.

Mae naw aelod o staff, gan gynnwys yr unigolyn sydd â gofal a’i dirprwy. Mae’r unigolyn sydd â gofal wedi bod yn ei swydd er 1993.

## Crynodeb o'r Adroddiad

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Digonol |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Digonol |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol |

**Diffyg cydymffurfio**

**Fe wnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn**:

- 6(3)(b)(ii)(aa) Mae hyn oherwydd nad oes gan yr Unigolion Cofrestredig dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) sy'n llai na thair oed, wedi'u cydlofnodi gan Weinidogion Cymru.

- 8(3)(a) Mae hyn oherwydd nad oes gan yr unigolyn sydd â gofal dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) sy'n llai na thair oed, wedi'i chydlofnodi gan Weinidogion Cymru.

- Nid yw AGGCC wedi cyhoeddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn am fod gan yr unigolion cofrestredig a'r unigolyn sydd â gofal dystysgrifau gwiriad manylach cyfredol gan y GDG, ond nid yw'r rhain wedi cael eu cydlofnodi gan Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ac mae'r lleoliad wedi gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael â hyn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion datblygiadol yr holl blant yn llawn ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth

A2 Rhoi cyfleoedd da i blant gymryd cyfrifoldeb a datblygu eu medrau hunangymorth, er enghraifft yn ystod amser byrbryd

A3 Sicrhau bod yr holl asesiadau risg yn addas at eu diben ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

A4 Rhoi'r system gweithwyr allweddol ar waith i gydymffurfio â safonau gofynnol cenedlaethol

A5 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A6 Sicrhau bod hunanarfarnu'n ystyried y deilliannau ar gyfer plant o bob oedran

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn creu cynllun gweithredu ôl-arolygiad sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd AGGCC ac Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

| Prif ganfyddiadau |
|---|

| Lles | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn cyfleu eu hanghenion yn briodol ac yn gwybod y bydd oedolyn yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt. Ar draws y lleoliad, mae llawer o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau addas, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu.

Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â'r drefn ddyddiol. Ar draws y lleoliad, mae plant yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol gyda'r ymarferwyr, sy'n adnabod y plant yn dda iawn. O ganlyniad, maent yn ddiogel ac wedi ymlacio ac yn cymryd rhan yn hapus yn y gweithgareddau a ddarperir ar y cyfan. Mae bron pob un o'r plant yn gyfforddus yng nghwmni ei gilydd. Maent yn ymgysylltu â'i gilydd yn briodol o ran eu hoedran a'u cyfnod datblygu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. Maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd wrth iddynt chwarae, er enghraifft pan fyddant yn rhannu teganau yn y gornel gartref. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dilyn trefn y lleoliad yn dda gyda chymorth priodol gan oedolion. Mae bron pob un ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio'n effeithiol ar dasgau sydd o ddiddordeb iddynt, fel chwarae â'r blociau. Maent yn gofalu'n dda am offer fel curwyr a drymiau, ac yn eu rhoi i gadw'n ofalus pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant hŷn yn mwynhau curo'r drymiau tra byddant yn canu eu cân am dân gwyllt yn dawel a swnllyd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau'n dda, er enghraifft wrth geisio gwisgo menig yn yr ardal y tu allan. Maent yn cynnal diddordeb mewn tasgau grŵp a gweithgareddau wedi'u hysgogi gan unigolion am gyfnodau priodol. Fodd bynnag, mae rhai plant yn colli diddordeb mewn gweithgareddau nad ydynt yn ddigon ysgogol o bryd i'w gilydd, er enghraifft yn ystod amser byrbryd. Mae llawer o blant yn awyddus i siarad am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn dangos boddhad pan fyddant yn cyflawni eu nod, fel sgriwio nyten bren ar follt.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu ystod dda o fedrau i'w paratoi ar gyfer bod yn annibynnol. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o blant yn y ddwy ystafell chwarae yn gallu golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r tŷ bach. Fodd bynnag, nid yw plant yn datblygu eu medrau hunangymorth mor effeithiol, yn enwedig amser byrbryd ac amser cinio.

| Dysgu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig) | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn datblygu medrau siarad a gwrando gwerth chweil, yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd ac oedolion gan ddefnyddio geirfa briodol. Er enghraifft, maent yn enwi offer

ar felt offer yn gywir a thrychfilod bach yn yr ardal awyr agored. Mae llawer o blant hŷn yn adnabod seiniau cychwynnol eu henwau ac yn ffurfio marciau a llythrennau â rheolaeth gynyddol, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu eu henwau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn cyfrif yn gywir hyd at o leiaf bum gwrthrych mewn ystod o wahanol gyd-destunau, ac yn adnabod ac enwi siapiau'n hyderus.

Mae medrau datrys problemau a meddwl y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda, er enghraifft pan fyddant yn dysgu defnyddio camera digidol. Maent yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol gwerth chweil, sy'n eu galluogi i ymuno'n dda mewn gweithgareddau grŵp, a rhannu a chymryd eu tro yn briodol.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da â'u medrau Cymraeg o'u man cychwyn. Maent yn canu caneuon a rhigymau Cymraeg yn frwdfrydig, yn defnyddio geiriau a chyfarchion syml, ac yn cyfrif yn sicr i dri o leiaf.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gweithgareddau corfforol, fel martsio i guriad drymiau a neidio rhwng grisiau ysgol yn yr ardal awyr agored. Maent yn trin teganau bach, ac yn dal ysgrifbinnau a sialc gyda medr a hyder cynyddol gan ddangos cyd-drefniant da.

| **Gofal a datblygiad** | Digonol |
| --- | --- |

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni rheoliadau ond yn destun ychydig o bryder. Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am egwyddorion diogelu plant ac mae hyn yn ategu eu harfer yn effeithiol. Er bod gweithdrefnau a pholisïau priodol ar waith, lleiafrif o ymarferwyr yn unig sydd wedi cael hyfforddiant diweddar i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r arfer ddiweddaraf.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod nifer briodol o ymarferwyr wedi cael hyfforddiant sylfaenol mewn cymorth cyntaf. Gallant adnabod a oes angen ymyrraeth feddygol a rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisi'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn darparu llawer o gyfleoedd gwerth chweil i blant fynd allan i'r awyr iach a chymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae'r cogydd yn paratoi bwydlen amrywiol o brydau a byrbrydau maethlon y mae plant yn eu mwynhau. Mae plant yn gwybod bod angen iddynt gadw eu dwylo'n lân i gael gwared â germau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ddatblygu medrau hylendid da yn gyson, er enghraifft sicrhau bod plant bob amser yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae pob ymarferwr yn rhoi llawer o ystyriaeth i ddiogelwch plant, ac maent yn hyrwyddo hyn yn effeithiol. Er enghraifft, fe wnaeth testun diweddar helpu plant hŷn i ddysgu'n ddefnyddiol am aros yn ddiogel ar noson tân gwyllt.

Mae gan y lleoliad bolisi ymddygiad clir y mae ymarferwyr yn ei gymhwyso'n gyson. Maent yn defnyddio dull cadarnhaol i reoli ymddygiad plant, gan wneud defnydd effeithiol o ganmoliaeth ac anogaeth. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion plant unigol ac yn defnyddio strategaethau'n hyblyg i fodloni eu hanghenion.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn gynnes a gofalgar tuag at y plant, gan ddarparu gofal meithringar ac ymatebol. Mae ganddynt

ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac mae pob un o’r staff yn cyfrannu at gofnodion datblygiadol defnyddiol. Mae’r rhain yn galluogi ymarferwyr i olrhain cynnydd plant yn effeithiol ac yn darparu cymorth ychwanegol pan fydd angen. Fodd bynnag, nid yw’r lleoliad yn gweithredu eu system gweithwyr allweddol yn gyson.

Mae ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant hŷn yn hyrwyddo datblygiad plant yn dda, yn unol ag egwyddorion da y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i blant iau wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau eu hunain yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, ni chânt wneud defnydd rheolaidd ac annibynnol o’r offer yn yr ardal chwarae anniben. Mae ymarferwyr yn darparu ar gyfer datblygiad cymdeithasol plant yn dda amser prydau, gan eistedd gyda’r plant a’u helpu i ddatblygu moesau bwrdd a chyd-drefniant da wrth fwyta. Fodd bynnag, maent yn llai llwyddiannus yn datblygu medrau hunangymorth ac annibyniaeth plant amser byrbryd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol trwy weithgareddau diddorol, gan gynnwys dathlu gwahanol wyliau diwylliannol fel Diwali. At ei gilydd, mae ymarferwyr yn trin plant ag urddas a pharch. Fodd bynnag, ar un achlysur yn ystod yr arolygiad, ni roddodd ymarferwyr ystyriaeth ddigonol i hawl plant i breifatrwydd.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau da i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn rhagweithiol wrth nodi anghenion plant ac yn gweithio’n dda gyda rhieni i gefnogi datblygiad plant. Maent yn rhoi cymorth gwerth chweil i blant ag anawsterau ymddygiadol ac anawsterau iaith gan ddefnyddio dulliau cyson a ystyriwyd yn dda. Mae ymarferwyr yn gweithio’n agos â’r awdurdod lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol fel y bo’n briodol, gan wneud defnydd da o gyngor.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant sy’n cael eu hariannu yn unig)** | Da |
| --- | --- |

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol ar draws meysydd dysgu’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r rhain yn ennyn diddordeb bron pob un o’r plant yn llwyddiannus y rhan fwyaf o’r amser. Ceir ffocws cryf yn y cynllunio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, ac mae ymarferwyr yn darparu llawer o gyfleoedd gwerth chweil i blant ymarfer y medrau hyn ar draws y gwahanol ardaloedd yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o arweiniad y Cyfnod Sylfaen a’u harsylwadau a’u hasesiadau i sicrhau bod bron pob un o’r plant yn adeiladu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn effeithiol dros gyfnod.

Mae ymarferwyr yn cefnogi plant yn dda wrth iddynt ddysgu i feithrin perthynas â’i gilydd. Maent yn darparu llawer o gyfleoedd defnyddiol iddynt ddysgu parchu pobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol, er enghraifft trwy rannu llyfrau o ansawdd da a mwynhau dathliadau diddorol. Mae’r amgylchedd dysgu awyr agored yn rhoi cyfleoedd da i blant archwilio ac arbrofi â gwahanol ddeunyddiau ac adnoddau. Mae holi o ansawdd da yn annog plant i feddwl a datrys problemau drostynt eu hunain.

Mae’r lleoliad yn cynllunio’n dda i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae plant yn datblygu synnwyr o syfrdan a rhyfeddod am y byd y maent yn byw ynddo pan fyddant yn chwilio am drychfilod bach. Maent yn hyrwyddo medrau cymdeithasol da trwy addysgu plant i ddeall rheolau syml ymddygiad a’u hannog i rannu a chydweithredu â’i gilydd. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd addas i blant ddatblygu medrau hunangymorth fel rhoi dillad awyr agored

amdanynt eu hunain.  Fodd bynnag, mae cyfleoedd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau priodol yn fwy cyfyngedig.  Caiff plant lawer o gyfleoedd defnyddiol i ddysgu am fyw yn gynaliadwy, er enghraifft trwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a diffodd goleuadau pan fyddant yn gadael ystafell.

Ceir cynllunio da i hyrwyddo datblygu'r Gymraeg.  Mae ymarferwyr yn defnyddio Cymraeg bob dydd yn rheolaidd ac yn annog plant i gyfrif yn Gymraeg a defnyddio geiriau, cyfarchion, caneuon a rhigymau syml.  Caiff plant gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u diwylliant Cymreig, er enghraifft pan fyddant yn dysgu hwiangerddi Cymraeg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn meddu ar wybodaeth dda a chyfoes am ddatblygiad y plentyn, ac maent yn ymateb yn dda i anghenion dysgu unigol plant.  Mae gan yr ymarferwr arweiniol ddealltwriaeth drylwyr o ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol.  Mae'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer hyn, gan ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol y tu mewn a'r tu allan.  Mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da ac yn defnyddio cyfleoedd mewn chwarae i gefnogi datblygiad iaith plant yn dda.  Mae ymarferwyr yn dathlu gwaith unigol plant mewn arddangosfeydd deniadol.  Fodd bynnag, mae gormod o bwyslais ar ansawdd y cynnyrch terfynol, pan fydd y gweithgaredd yn gysylltiedig â dathliadau fel y Nadolig, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i fynegi eu hunain yn greadigol.

Mae ymarferwyr yn arsylwi ac asesu plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr fel rhan o'u gwaith bob dydd.  Maent yn cadw cofnodion defnyddiol o gynnydd plant ac yn cwblhau adolygiad tymhorol trylwyr sy'n nodi'r camau nesaf priodol ar gyfer unigolion a grwpiau o blant.  Mae'r lleoliad yn cwblhau proffiliau ar gyfer pob plentyn, gan ddarparu cofnod defnyddiol o'i ddatblygiad.  Mae'r feithrinfa yn rhannu dysgu â rhieni yn effeithiol, er enghraifft defnyddio cylchlythyrau rheolaidd i esbonio'r ffocws ar gyfer gwaith dros y chwe wythnos nesaf, sydd felly'n galluogi rhieni i gynorthwyo eu plant yn effeithiol gartref.

| **Yr amgylchedd** | Digonol |
|---|---|

Mae'r adeiladau'n saff a diogel.  Mae polisïau a gweithdrefnau diogelwch priodol ar waith, ac mae rheolwyr yn cynnal gwiriadau rheolaidd, er enghraifft i sicrhau bod tymereddau oergell a dŵr yn gywir.  Mae gan reolwyr systemau effeithiol i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yn rheolaidd ar adeiladau a systemau.  Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau asesu risg y lleoliad yn ddigon trylwyr i sicrhau bod yr holl risgiau i iechyd a diogelwch plant yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw'n briodol.

Rhoddir gofal da i bob un o'r plant mewn amgylchedd cyfforddus ac ysgogol.  Mae ystafelloedd yn gynnes a chroesawgar, ac mae arddangosfeydd yn cynnwys ystod ddiddorol o enghreifftiau o gelf plant, sy'n gwella'u hunan-barch a'u synnwyr o berthyn.  Mae ystafell y babanod yn lân ac wedi'i dodrefnu'n dda, gyda byrddau a chadeiriau pren, ac offer o ansawdd da, sy'n bodloni anghenion y plant iau yn effeithiol.  Mae'r ystafell cyn-ysgol yn cynnwys adnoddau da ac wedi'i threfnu i gefnogi plant hŷn i ddatblygu medrau annibynnol.  Mae ardal chwarae anniben yn rhoi cyfleoedd da i blant hŷn archwilio ac arbrofi ag ystod dda o wahanol ddeunyddiau.  Fodd bynnag, mae llai o adnoddau i blant iau chwarae â nhw a dewis

drostynt eu hunain. Mae toiledau a basnau ymolchi yn hawdd i blant eu defnyddio, ac mae plant hŷn yn defnyddio'r rhain yn annibynnol.
Mae'r lleoliad wedi llwyddo i ddatblygu ardaloedd awyr agored deniadol iawn ac ysgogol y mae plant yn eu defnyddio'n rheolaidd. Mae plant yn mwynhau'r ddarpariaeth awyr agored, ac mae'r offer o ansawdd da a ddarperir yn cefnogi eu dysgu'n dda. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi datblygu ardal goedwig yn ddiweddar lle mae plant iau yn mwynhau hela am anifeiliaid tegan. Mae gan y lleoliad lawer o adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant yn dda, gan gynnwys llyfrau ac arddangosfeydd diddorol.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Digonol |
|---|---|

Mae'r unigolyn sydd â gofal a pherchnogion y lleoliad yn rhannu synnwyr clir o ddiben, sydd wedi arwain at welliannau parhaol a deilliannau cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer plant hŷn. Mae ganddynt weledigaeth gref i ddarparu gofal o ansawdd da mewn amgylchedd teuluol, cynnes. Maent yn cyfleu eu gweledigaeth yn dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol tuag at gyflawni hyn. Er enghraifft, mae'r unigolyn sydd â gofal yn monitro safonau addysgu a dysgu yn rheolaidd, gan gefnogi a herio ymarferwyr i wneud eu gorau. Mae hyn yn arwain at ddull cyson ar draws y lleoliad i ymdrin â materion fel rheoli ymddygiad yn gadarnhaol a chwarae yn yr awyr agored, ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at les plant ac at safonau dysgu yn y sefydliad cyn-ysgol. Mae rheolwyr yn rhannu datganiad o ddiben a pholisïau'r lleoliad yn effeithiol gydag ymarferwyr a rhieni, gan eu hysbysu'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oes gan reolwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â holl reoliadau AGGCC ac yn bodloni'r safonau gofynnol. Er enghraifft, nid yw'r lleoliad yn gweithredu ei system gweithwyr allweddol yn gyson.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ei ddarpariaeth addysgol yn datblygu'n dda, ac yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i wella ansawdd. Fodd bynnag, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn llai datblygedig.

Mae'r unigolyn sydd â gofal yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn ffurfiol ac yn anffurfiol fel ei gilydd, gan arwain at welliannau parhaus, yn ogystal â datblygu cynlluniau gwella priodol. Mae'r cynllun diweddaraf yn cynnwys targedau clir a meini prawf llwyddiant defnyddiol. Mae rheolwyr yn monitro cynnydd yn ofalus a rheolaidd, ac o ganlyniad, mae dulliau newydd yn datblygu'n dda, yn enwedig o ran cefnogi plant hŷn. Mae archwiliadau o'r ardal awyr agored wedi arwain at welliannau sylweddol mewn cyfleoedd dysgu i bob un o'r plant. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n brydlon ar awgrymiadau ar gyfer newid gan rieni, fel arddangos bwydlenni ar y drws blaen. Mae ymarferwyr yn rhannu awgrymiadau'n anffurfiol yn rheolaidd.

Mae gan bob un o'r ymarferwyr rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Mae'r lleoliad yn cyflogi digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae ymarferwyr yn adolygu eu gwaith mewn gwerthusiad blynyddol defnyddiol. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerth chweil iddynt fyfyrio ar eu harfer a nodi anghenion hyfforddi. Mae ymarferwyr yn trafod eu gwaith gyda rheolwyr yn anffurfiol yn rheolaidd, er nad oes proses ffurfiol ar gyfer goruchwylio un i un, fel sy'n ofynnol gan reoliadau AGGCC. Mae rheolwyr wedi ymrwymo'n drylwyr i recriwtio staff yn ddiogel. Fodd

bynnag, nid yw systemau i reoli ffeiliau staff yn ddigon trylwyr ac nid ydynt yn cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol. Mae’r lleoliad yn cynllunio’n ofalus ar gyfer absenoldebau tymor byr a thymor hir y staff. Mae hyn yn lleihau’r effaith a gaiff newidiadau mewn staff ar ofal plant yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn elwa ar ystod gyfoethog o bartneriaethau sy’n cefnogi lles a safonau plant yn dda. Mae rhieni’n gwerthfawrogi cyfleoedd iddynt gael eu cynnwys ym mywyd y lleoliad, fel gwyliau tymhorol. Mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni’n weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â gofal eu plentyn ac yn cynnwys rhieni mewn darparu gweithgareddau i gefnogi datblygiad eu plentyn yn dda. Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd da o gymorth gan sefydliadau proffesiynol a’r awdurdod lleol i gefnogi gwelliant parhaus ac anghenion dysgu plant unigol. Ceir cysylltiadau cryf â’r gymuned, ac mae pobl yn ymweld â’r lleoliad yn rheolaidd, er enghraifft o’r adran dân a chynrychiolwyr o archfarchnad leol, gan helpu plant i ddysgu am y byd o’u cwmpas. Mae’r berthynas agos â’r cartref gofal cyfagos yn helpu i hyrwyddo datblygiad personol plant yn effeithiol iawn. Mae cysylltiad hirsefydledig â chartref plant amddifaid ym Methlehem yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iawn ar gyfer eu datblygiad cymdeithasol, ysbrydol a moesol.

## Atodiad 1

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni fydd y data hwn yn cael ei ddangos.

## Atodiad 2

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn a gwefan AGGCC ( www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae’r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio’r term anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion heblaw anghenion y rhan fwyaf o blant eraill yn y lleoliad, am nifer o resymau gwahanol |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma yw’r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir fel ei gilydd. |
| **Dechrau’n Deg** | Gwasanaethau sy’n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim ar gyfer plant dwy oed cymwys i roi’r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a’u paratoi ar gyfer yr ysgol. Maent hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi’r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae’r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |
| **Unigolyn allweddol neu system gweithwyr allweddol** | Ymarferwr sy’n cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn yw hwn/hon fel bod unigolyn cyfarwydd, y gall y plentyn ymddiried ynddo, ar gael iddo fel ei fod yn teimlo’n ddiogel a |

| | |
|---|---|
| | chyfforddus. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys yr Unigolyn Cofrestredig, Unigolyn Cyfrifol neu Unigolyn sydd â Gofal<br>• Unigolyn cofrestredig – yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gallai hwn fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn cyfrifol – lle mae'r unigolyn cofrestredig yn sefydliad, dyma'r unigolyn sy'n cael ei enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar eu rhan<br>• Unigolyn sydd â gofal – yr unigolyn sy'n cael ei benodi gan yr unigolyn cofrestredig i fod yng ngofal y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Ymarferwyr** | Pawb sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant mewn lleoliad. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo'u lles. |